


# St David's College Update

## How to Keep in Touch with the latest from St David's College

Every **two weeks,** the college is releasing this newsletter, accompanied by a video version, that is shown to students in college – The St David's Update. **Click here to watch Update Videos.**

You can also follow the college in Instagram, LinkedIn and Bluesky.

You can also keep up to date with news stories by visiting the news section of the college website.




## With sadness, we announce the passing of Mark Leighfield, former Principal.

It is with deep sadness, to announce the passing of former Principal, Mark Leighfield.

Mark served as Principal for 24 years before retiring in April 2024. He passed following a four-year battle with cancer, through which he remained a pillar of the St David's community. Mr Leighfield was a leader; a man who truly loved this college.

Join us in extending our prayers and thoughts to Mark's family during this time.

**Click here to read the full story.**

## We're looking for a Parent Governor

***The nominations are open for Parent Governor.***

There are 17 members of the governing body of St David's College. They ensure that the College meets its mission and strategic objectives. They are also under the Instrument and Articles of Government responsible for ensuring the efficient and effective use of public resources and the financial health of the College.

Any parent/guardian/carer of a current student at the College is eligible to stand, the term of office is for **two** years.

**In order to stand, the Nomination Form must be completed in full and returned to the Legal Clerk to the Governing Body at St David's Catholic College by 24th January 2025, 12.00 noon.** If more than one nomination is received, then an election will be held.

If you require further information please contact Helen De Saulles, Legal Clerk to the Governing Body, hdesaulles@stdavidscollege.ac.uk.

**Nomination Form**



## Christmas was a season of giving...

The Filipino Society at St David's are one of the most vibrant and sociable clubs – a big part of student life. For the Christmas Market, their bake sale raised more than £200, which they used to make donations to a school in the Philippines.

[Click here to read more about FilSoc's charitable actions.]



## Staff highlighted the struggles of homelessness.

The last week before Christmas, eighteen staff members held a 'Sleep Out', sleeping **outside** the College to raise awareness and funds for homeless initiatives in Cardiff.

The staff donated bags to homeless people, on a night of bad weather, before hunkering down for the night in the cold.

[Read more about the sleep out by clicking here.]






## Cuddling dogs and stroking horses to bring some January Joy...

The St David's Wellbeing Day organised some insightful wellbeing help on Wednesday 8th, with wellbeing dogs from Cariad Pet Therapy and Police Horses from South Wales Police.

We were also joined by a number of external companies and organisations that offer wellbeing support to our learners, including the Wisdom App, which all learners have available to them for free, and Young Carers Cardiff, who support our young careers.

Remember, with mocks coming up, January can be tough for many. If you need additional wellbeing support, learners can contact their pastoral tutor, the wellbeing team, or the chaplaincy team for guidance.





## Mock Exams

AS Students have been emailed **personalised timetable** for the first of the **mock weeks (13th – 17th January)**.

Another email will be sent out **next week** for the **second mock week (A2 & GCSE) (20th – 24th January)**.

It is important that learners treat mock examinations as you would treat external examinations; the same rules apply in the examination venue e.g. Sports Hall. Mock examinations will be good preparation for examinations in the summer.

Learners have been emailed the exam regulations – it is important that learners understand the rules.

## New Minibus Service to Cardiff Central

Student voice is valued at St David's in order to improve student experience.

Recently, we held a focus group about students' travel experiences to and from college. Many students commute to College by train and commented that the afternoon buses into the city centre were at capacity which sometimes meant they had to wait for quieter buses, which added considerably onto journey times. In response to this, the College is offering a free minibus shuttle service to Cardiff Central every afternoon. Places are limited so students have been asked to apply for a place. We will also review this service regularly.

# Announcements

| | |
|---|---|
| **Food Pantry** | A reminder that we have a food pantry available to learners who may need additional support with food and toiletries. Please go to the room opposite the Launchpad, where you can discretely collect a range of items to take home with you. |

## Important Dates

| | |
|---|---|
| 13th January | **Start of AS Mocks Week** |
| 20th January | **Start of A2 and GCSE Mocks Week** |
| 29th January | **Open Evening** |
| 30th January | **INSET Day** |
| 19th February | **Parents Evening (Lower Sixth)** |




# Diweddariad **Coleg Dewi Sant**

## Sut i Gadw mewn Cysylltiad â'r newyddion diweddaraf gan Goleg Dewi Sant

Bob **pythefnos**, mae'r coleg yn cyhoeddi'r cylchlythyr hwn, gyda fersiwn fideo sy'n cael ei dangos i fyfyrwyr yn y coleg – Diweddariad coleg Dewi Sant. Cliciwch yma i wylio'r Diweddariadau Fideo.

Gallwch hefyd ddilyn y coleg ar Instagram, Facebook a BlueSky.

Gallwch hefyd gael y diweddaraf wrth fynd i adran newyddion gwefan y coleg.




## Gyda thristwch, cyhoeddwn farwolaeth Mark Leighfield, y Cyn-bennaeth.

Gyda thristwch mawr, cyhoeddwn farwolaeth ein Cyn-bennaeth, Mark Leighfield.

Gwasanaethodd Mark fel Pennaeth am 24 mlynedd cyn ymddeol ym mis Ebrill 2024. Buodd farw ar ôl brwydr pedair blynedd a chanser, gan aros yn biler o gymuned Coleg Dewi Sant drwyddi draw. Arweinydd oedd Mr Leighfield; dyn a oedd wir yn caru'r coleg hwn.

Ymunwch â ni i estyn ein gweddïau a’n meddyliau i deulu Mark yn ystod y cyfnod hwn.

**Cliciwch yma i ddarllen y stori lawn.**

## Enwebu Rhiant Lywodraethwr

Mae Etholiadau ar gyfer swydd Rhiant Llywodraethwr ar gyfer Ionawr 2025 yng Ngholeg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant.

Mae 17 aelod o Gorff Llywodraethol Coleg Catholig Dewi Sant. Maent yn sicrhau bod y Coleg yn cyflawni ei genhadaeth a'i amcanion strategol. Maent hefyd o dan yr Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau cyhoeddus ac iechyd ariannol y Coleg.

Mae unrhyw tiant/gwarcheidwad/gofalwr myfyriwr presennol yn y Coleg yn gymwys i sefyll, tymor y swydd yw dwy flynedd.

**Er mwyn sefyll, rhaid llenwi'r Ffurflen Enwebu yn llawn a'i dychwelyd at Glerc Cyfreithiol y Corff Llywodraethol yng Ngholeg Catholig Dewi Sant erbyn 24ain Ionawr 2025, 12.00 canol dydd.** Os derbynnir mwy nag un enwebiad yna cynhelir etholiad.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Helen De Saulles, Clerc Cyfreithiol y Corff Llywodraethol.

ffurflen enwebu



## Roedd y Nadolig yn dymor o roi...

Mae'r Gymdeithas Ffilipinaidd yng Ngholeg Dewi Sant yn un o'r clybiau mwyaf bywiog a chymdeithasol – ac yn rhan fawr o fywyd myfyriwr. Ar gyfer y Farchnad Nadolig, cododd eu harwerthiant cacennau fwy na £200, a ddefnyddiwyd ganddynt i wneud rhodd i ysgol yn yr Ynysoedd Philippines.

Cliciwch yma i ddysgu rhagor am weithredoedd elusennol FilSoc.



## Amlygodd staff anawsterau digartrefedd.

Yn yr wythnos olaf cyn y Nadolig, cynhaliodd 18 aelod o staff ddigwyddiad Cysgu Allan, gan gysgu **y tu allan** i'r Coleg i godi ymwybyddiaeth ac arian i fentrau digartrefedd yng Nghaerdydd.

Rhoddodd y staff fagiau i bobl ddigartref, ar noson o dywydd garw, cyn swatio i lawr am y noson yn yr oerfel.

[Darllenwch ragor am y digwyddiad drwy glicio yma.]




## Anwesu cŵn a mwytho ceffylau i lawnhau lacháu...

Trefnodd Diwrnod Llesiant Coleg Dewi Sant gymorth lles mewnwelediadol ddydd Mercher 8fed, gyda chŵn lles o Cariad Pet Therapy a Cheffylau Heddlu o Heddlu De Cymru.

Ymunodd nifer o gwmnïau a sefydliadau allanol sy’n cynnig cymorth lles i’n dysgwyr â ni hefyd, gan gynnwys yr Ap Wisdom, sydd ar gael i bob dysgwr am ddim, a Gofalwyr Ifanc Caerdydd, sy’n cefnogi ein gofalwyr ifanc.

Cofiwch, gyda ffug arholiadau ar y gorwel, gall Ionawr fod yn anodd i lawer o bobl. Os oes angen cymorth lles ychwanegol arnoch, gall dysgwyr gysylltu â'u tiwtor bugeilio, y tîm lles neu'r tîm caplaniaeth am arweiniad.



## Ffug arholiadau

Mae myfyrwyr UG wedi derbyn **amserlen bersonol** drwy e-bost ar gyfer yr **wythnos ffug arholiadau cyntaf (13 – 17 Ionawr)**.

Bydd e-bost arall yn cael ei anfon **wythnos nesaf** ar gyfer **yr ail wythnos ffug arholiadau (Uwch a TGAU) (20 – 24 Ionawr)**.

Mae'n bwysig bod dysgwyr yn trin ffug arholiadau fel y byddech yn trin arholiadau allanol; mae'r un rheolau'n berthnasol yn lleoliad yr arholiad e.e. Neuadd Chwaraeon. Bydd ffug arholiadau yn baratoad da ar gyfer arholiadau yn yr haf.

Mae dysgwyr wedi derbyn e-bost gyda rheoliadau'r arholiadau – mae'n bwysig bod dysgwyr yn deall y rheolau.

## Gwasanaeth Bws Mini Newydd i Gaerdydd Canolog

Mae llais myfyrwyr yn werthfawr yng Ngholeg Dewi Sant i wella profiad myfyrwyr.

Yn ddiweddar, gwnaethom gynnal grŵp ffocws am brofiadau teithio myfyrwyr i'r coleg ac oddi yno. Mae llawer o fyfyrwyr yn cymudo i'r Coleg ar y trên a dywedasant fod y bysiau prynhawn i ganol y ddinas yn llawn a oedd weithiau'n golygu bod yn rhaid iddynt aros am fysiau tawelach, a oedd yn ychwanegu'n sylweddol at amseroedd teithio. Mewn ymateb i hyn, mae'r Coleg yn cynnig gwasanaeth gwennol bws mini am ddim i Gaerdydd Canolog bob prynhawn. Mae seddi yn gyfyngedig felly gofynnwyd i fyfyrwyr wneud cais am sedd. Byddwn hefyd yn adolygu'r gwasanaeth hwn yn rheolaidd.

# Cyhoeddiadau

**Pantri Bwyd** Nodyn i'ch atgoffa bod gennym ni pantri bwyd ar gael i ddysgwyr sydd efallai angen cymorth ychwanegol gyda bwyd ac eitemau ymolchi. Ewch i'r ystafell gyferbyn â'r Launchpad, lle gallwch chi gasglu amrywiaeth o eitemau yn gyfrinachol i fynd adref gyda chi.

# Dyddiadau Pwysig

| | |
|---|---|
| 13 Ionawr | **Dechrau Wythnos Ffug Arholiadau UG** |
| 20 Ionawr | **Dechrau Wythnos Ffug Arholiadau Uwch a TGAU** |
| 29 Ionawr | **Noson Agored** |
| 30 Ionawr | **Diwrnod HMS** |
| 19 Chwefror | **Noson Rhieni (Chweched Isaf)** |